

Coleg Addysg Bellach Arbenigol Priory Gogledd Cymru

Mae Coleg Priory Gogledd Cymru yn goleg annibynnol arbenigol sy'n cynnig cymorth a gofal i bobl ifanc 16-25 oed sydd â syndrom Asperger, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig. Mae'r coleg gerllaw Coleg Iâl yn Wrecsam, coleg trydyddol o'r radd flaenaf sy'n enwog am gyflawni rhagoriaeth mewn addysg bellach ac uwch.

Ein nod

Mae Coleg Priory Gogledd Cymru yn darparu amgylchedd dysgu diogel a chefnogol ble gall ein hoedolion ifanc archwilio eu profiad eu hunain o syndrome Asperger a datblygu strategaethau i reoli eu cyflwr yn eu bywyd beunyddiol a mynychu coleg prif ffrwd yn ystod y dydd. Byddwn yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer cam nesaf eu taith.

Trwy ein tîm staff ymroddedig, byddwn yn cynnig rhaglen bersonol o addysg, gofal, profiad gwaith, hamdden, sgiliau bywyd a hyfforddiant yn y gymuned i bob person ifanc, i'w galluogi i fyw mor annibynnol ag y gallant a gwneud eu dewisiadau eu hunain mewn bywyd.

Gwasanaethau a gynnigir:

- Pecynnau trosglwyddo yn cychwyn ym mlwyddyn 9 ar gyfer darpar fyfyrwyr y coleg
- Cymorth barhaus â dysgu a sgiliau bywyd
- Rhaglenni addysg a datblygiad personol a chymdeithasol wedi'u teilwra'n arbennig
- Cysiau wedi'u cysylltu ag achrediaadau allanol, yn arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol
- Adnoddau a strategaethau addysgu penodol (e.e. cyfathrebu amgen ac ychwanegol, PECS, TEACCH, Makaton a BSL)
- Partneriaethau gwaith agos â Choleg Glannau Dyfrdwy a Gwasanaethau Cymdeithasol



Parhad ar y dudalen nesaf...

Dull cyfannol:

- Llwybrau gofal unigol wedi'u teilwra i anghenion unigol
- Cymorth i deuluoedd a chyfeirio o fewn ein gwasanaethau
- Cymorth seiciatryddol a seicolegol clinigol lle bo angen hynny
- Mynediad at gynghorydd a ffsiotherapydd
- Therapi lleferydd ac iaith
- Celfyddydau therapiwtig
- Agweddau cymdeithasol ac emosiynol ymyriadau dysgu

Meini prawf mynediad:

- Rhwng 16 a 26 mlwydd oed
- Diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig
- Cyfeiriadau gan Gyrfa Cymru a/neu ofal cymdeithasol
- Datganiad o Angen Addysgol neu dystiolaeth o ymyriad Action Plus
- Darperir ar gyfer y sawl sydd â dyslecsia, dyspracsia ac anhwylderau gorbryder
- Ni ddylent fod ag anghenion gofal meddygol sylweddol a fuasai'n golygu fod angen ymarferydd meddygol ar y safle

Coleg Priory Gogledd Cymru

67 Stryd y Brenin,
Wrecsam, Cymru
LL11 1HR
Ffôn: 01978 366 006



Mae
100%

o'r bobl ifanc yn cyfranogi mewn rhaglenni annibynnuaeth sy'n briodol i'w hoedran

Mae
100%

o'r bobl ifanc yn cael mynediad at raglenni sy'n gysylltiedig â rheoli cyllidau personol a sgiliau cymdeithasol

Mae
100%

o'r bobl ifanc a fynychodd eu cyfarfod adolygu wedi cyfrannu at osod eu targedau eu hunain

Canlyniadau positif

Rydym yn cynnig cymorth parhaus, dysgu a datblygu sgiliau bywyd o fewn fframwaith sy'n canolbwyntio ar unigolion er mwyn uchafu annibyniaeth bersonol a photensial unigol. Caiff cynlluniau a rhaglenni unigol eu haddasu i sicrhau y caiff pob unigolyn ei herio i wneud cynnydd ar gyflymder ac ar lefel sy'n addas iddo.

Y canlyniad a ddymunir yw galluogi pobl ifanc i gael rhagor o annibyniaeth a byw bywyd hapus, ystyrlon a llawn.



I gael rhagor o wybodaeth ynghylch ein gwasanaethau addysg a gofal arbenigol, ffoniwch ni ar:

01978 366 006

e-bostiwch

priorycolegnorthwales@priorygroup.com

neu ewch i'n gwefan yn

www.priorygroup.com